

EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 83 – Unawd Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9
geiriau – Lluniau'r Tymhorau – Eifion Lloyd Jones



Cainc: Siliwen, Gwennat Pyrs (122)
Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill – Cyhoeddiadau Curiad

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

LLUNIAU'R TYMHORAU

Mae'r nant yn chwarae cuddio o dan y brwyn,
Gan sbecian weithiau drwyddo ar flodau'r llwyn;
Mae'r oen yn prancio'n heini i ddeffro'r tir,
A'r gwanwyn wedi'i eni ar fore clir.

Mae'r afon wedi blino dan gangau trwm,
Gan loetran yno'n ddiog ar lawr y cwm;
Mae buwch yr haf yn gorwedd ar stumog lawn,
I gnoi a chnoi'n ddiddiwedd yn haul y pnawn.

Mae'r tonnau'n llyfu'r tywod ar hyd y traeth,
Gan adael mil o swigod fel ewyn llaeth.
Mae'r wylan yn mynd adre o sŵn y byd
I wyllo machlud hydre' yn aur i gyd.